

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU	STANDARDS COMMITTEE SELECTION PANEL
DYDD GWENER, 21 MEHEFIN 2019 am 1.00 o'r gloch	FRIDAY, 21 JUNE 2019 at 1.00 pm
YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Mrs Shirley Cooke (01248) 752514 Committee Officer

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council

Y Cyngohrydd/Councillor Gwilym O Jones
Y Cyngohrydd/Councillor Robert LI Jones
Y Cyngohrydd/Councillor Margaret M Roberts

Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils

Mr Gordon Warren

Aelodau Annibynnol / Independent Members

Dr Teleri Mair Jones

A G E N D A

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 5 - 6)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei ddatgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf, ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 **TYNNU RHESTR FER O YMGEISWYR AR GYFER RÔL AELODAU ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU, A PHENDERFYNU AR Y BROSES GYFWELD** (Tudalennau 7 - 140)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

PANEL DETHOL PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019

YN BRESENNOL: Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd Robert Ll Jones
Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)

Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref / Cymuned

Mr Gordon Warren

Aelodau Annibynnol

Dr Teleri M Jones

WRTH LAW: Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /
Swyddog Monitro
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)
Swyddog Pwyllgor (SC)

YMDDIHEURIADAU: Dim

Croesawodd y Swyddog Monitro Dr Teleri Jones i'r cyfarfod. Mae Dr Jones wedi ei phenodi fel aelod cyfetholedig o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau.

1. ETHOL CADEIRYDD

Cafodd y Cynghorydd Margaret M Roberts ei hethol yn Gadeirydd ar gyfer cyfnod y broses apwyntiadau.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. RECRIWTIO PEDWAR AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod angen i'r Panel Dethol gytuno ar y meini prawf recriwtio a'r pecyn cais ar gyfer ymgeiswyr.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) y bydd y panel yn sgorio'r ceisiadau ac yn llunio'r cwestiynau cyfweiliad yn erbyn y meini prawf

gosod. Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer wedyn yn cael eu gwahodd am gyfweliad gan y Panel.

Trafododd y Panel y gofynion statudol ar gyfer y rôl ynghyd â'r meini prawf dewis lleol posibl. Rhannwyd copïau o'r disgrifiad swydd presennol â'r Panel er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD fod y Panel Dethol yn cytuno i weithredu'r gofynion statudol yn unig fel eu meini prawf.

4. CYMERADWYO'R HYSBYSEB A'R DDOGFENNAETH AR GYFER RECRIWTIO PEDWAR AELOD NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar yr uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod angen statudol i swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol gael eu hysbysebu mewn dau bapur newydd lleol. Gall y Panel Dethol benderfynu ar unrhyw hysbysebu ychwanegol hefyd.

Trafododd y Panel yr opsiynau sydd ar gael o ran hysbysebu swyddi gwag a'r costau cysylltiedig a chytunwyd y dylid rhoi hysbyseb mewn dau bapur lleol am gyfnod o wythnos gyda dolen i'r ffurflen gais a'r papurau cefndir ac y dylid hysbysebu ar dudalennau Facebook a Twitter y Cyngor.

O ran y ffurflen gais a'r dogfennau cefnogi, roedd y Panel yn ystyried fod y cynnwys yn rhy feichus ac y dylid tynnu rhai rhannau allan.

PENDERFYNWYD:-

- **Cymeradwyo'r ddogfennaeth ddrafft yn Atodiad 1, i gynnwys dim ond y gofynion statudol**
- **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i hysbysebu'r swyddi gwag ar gyfer pedwar aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau mewn dau bapur newydd lleol, am gyfnod o wythnos, yn dilyn gwyliau Pasg yr ysgolion ac i hysbysebu ar dudalennau Facebook a Twitter y Cyngor.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dynnu Atodiad B a C o Ran 3 y pecyn cais drafft.**

5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.”

**6. CWESTIYNAU POSIBL AR GYFER CYFWELIADAU'R AELODAU
ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn gofyn i'r Panel Dethol ystyried a chytuno ar gwestiynau cyfweiliad addas ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi eu rhoi ar y rhestr fer, o'r meini prawf a fabwysiadwyd.

Rhannwyd rhestr o gwestiynau cyfweiliad posibl ar gyfer ystyriaeth y Panel. Byddai ymatebion y Pwyllgor yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Panel Dethol.

PENDERFYNWYD:-

- Ystyried y cwestiynau cyfweiliad drafft ar gyfer ymgeiswyr a gyflwynwyd ac i gynnwys unrhyw ychwanegiadau/newidiadau gan y Panel er mwyn gallu penderfynu ar y cwestiynau cyfweiliad terfynol ac i adrodd yn ôl ar hynny yng nghyfarfod nesaf y Panel Dethol.
- Y Swyddog Monitro i drefnu dyddiad cau ar gyfer yr hysbyseb papur newydd ddiwedd Mai, a threfnu cyfarfod o'r Panel Dethol ar gyfer mis Mehefin er mwyn gallu llunio rhestr fer.
- Y Swyddog Monitro i anfon yr holl waith papur perthnasol at aelodau'r Panel Dethol cyn y cyfarfod; ar ffurf copi caled ar gyfer y rhai sydd angen.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am

**CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

PRAWF BUDD Y CYHOEDD

PUBLIC INTEREST TEST

Penodi Aelodau Annibynnol i Swyddi Gweigion ar y Pwyllgor Safonau /
Appointment of Independent Members to Vacant Seats on the Standards Committee

Paragraff 12 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph 12 Schedule 12A Local Government Act 1972

Y PRAWF – THE TEST

Mae budd i'r cyhoedd o ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-

- Mae angen tryloywder wrth benodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau oherwydd y rôl arwyddocaol sydd gan y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethiant ac ymddygiad cynghorwyr sir etholedig a chynghorwyr y cynghorau tref a chymuned.
- There is a requirement for transparency in the appointment of co-opted members to the Standards Committee, given the significant role played by the Committee in relation to governance and conduct of elected county councillors and town and community councillors.

Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-

- Mae disgwyliad rhesymol gan ymgeiswyr y bydd eu ffurflenni cais a'u hasesiadau'n cael eu trin yn gyfrinachol ac y bydd eu cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn breifat. Mae'n bosib y gellid cymryd camau am beidio â chwrrd â'r fath ddisgwyliad rhesymol i barchu cyfrinachedd.
- Mae'n rhesymol disgwyl y gallai cyhoeddi ffurflenni cais a chynnal proses ddethol sy'n hollol gyhoeddus, olygu y byddai llai o ymgeiswyr, os o gwbl, yn ymgeisio am swyddi yn y dyfodol.
- Mae'r Panel wedi cael ei benodi i ymgymryd â rôl sicrwydd ar ran y Cyngor a'r cyhoedd ac, ar ôl dilyn y broses briodol, bydd yn gwneud ei argymhellion i'r Cyngor llawn a fydd yn cymeradwyo'r penodiadau terfynol.
- Bydd manylion am y penodiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi.
- Mae llawer o'r broses eisoes yn y parth cyhoeddus ac mae'n debyg y byddai gwybodaeth fanylach am y

broses yn cael ei chyhoeddi petai cais dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn dod i law.

- There is a reasonable expectation of confidentiality by the applicants that their application forms, assessments and interviews will be conducted in private. A breach of such a reasonable expectation of confidence is potentially actionable.
- Publication of applications, and a wholly public selection process, might reasonably be expected to result in fewer, or no, candidates applying for future vacancies.
- The Panel has been appointed to undertake the assurance role on behalf of the Council and the public and, following due process, will make its recommendations to full Council which will ratify the final appointments.
- The final appointments will be made public.
- Much of the process is already in the public domain and more detailed information about the process would likely be published in the event of a Freedom of Information Act 2000 request.

Argymhelliad - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd a ddeuai yn sgil datgelu'r wybodaeth.

Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank